

Gwneud cais i gymeradwyo sefydliad cig

Sut i wneud cais i gymeradwyo lladd-dy, ffatri dorri, marchnad cyfanwerthu cig a sefydliad trin helgig.

Sefydliadau a gaiff eu cymeradwyo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Mae'r sefydliadau canlynol yn gofyn am reolaeth milfeddygol a rhaid i ni eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau masnachu:

- lladd-dai
- ffatrioedd torri
- sefydliadau trin helgig
- marchnadoedd cyfanwerthu cig

Ni allwch chi ddechrau masnachu cyn cael eich cymeradwyo. Ni ddylech ddechrau unrhyw weithgarwch busnes sy'n gofyn am gymeradwyaeth oni bai eich bod wedi cael cymeradwyaeth amodol neu lawn ar gyfer y gweithgarwch arfaethedig gan yr ASB. Os byddwch chi'n dechrau masnachu heb gymeradwyaeth, mae'n drosedd a all arwain at erlyniad.

Bydd angen i chi [wneud cais i gymeradwyo sefydliad bwyd](#) os rydych chi'n berchen ar:

- sefydliad cig
- sefydliad pysgod a physgod cregyn
- sefydliad cynnyrch llaeth
- sefydliad cynnyrch anifeiliaid

Gwneud cais am gymeradwyaeth

Ewch ati i lenwi'r ffurflen gais berthnasol a'i hanfon at:

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Tîm Cymeradwyo
Ystafell 112, Kings Pool
Peasholme Green
Caerefrog YO1 7PR

Pan ddaw eich cais i mewn, bydd un o'n swyddogion milfeddygol yn cysylltu â chi o fewn pythefnos i drefnu ymweliad i gynnal asesiad.

Lloegr a Cymru

[View Cymeradwyo sefydliadau bwyd – Ffurflen gais yng Nghymru as Word](#) (136.97 KB)

[View Step by step guide for meat approvals application as Word](#) (1.76 MB)

Gwneud cais am weithgareddau ychwanegol

Os ydych chi'n sefydliad cig sydd wedi'i gymeradwyo eisoes ac yn dymuno gwneud cais am weithgareddau neu rywogaethau ychwanegol, llenwch y ffurflen hon a'i hanfon dros e-bost at approvals@food.gov.uk

Lloegr a Cymru

[View Cais i Gymeradwyo Gweithgareddau Ychwanegol mewn Sefydliad Cig sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd as Word](#) (136.97 KB)

Ymweliadau cynghori

Gall darpar weithredwyr busnesau bwyd sy'n dymuno cael cymeradwyaeth ar gyfer eu sefydliadau ofyn am ymweliad cynghori. Nod ymweliadau cynghori yw helpu gweithredwr y busnes bwyd i nodi'r gofynion lles a hylendid a allai fod yn berthnasol i'w gweithgareddau cymeradwyo arfaethedig. Ymhlith y meysydd cyngor mae strwythur adeiladau, offer a chyfleusterau, ystyriaethau hylendid gweithredol a HACCP, arferion da, rheoli cofnodion a gweithdrefnau gweithredu safonol yn ogystal â lles anifeiliaid. Codir ffi benodol am ymweliadau cynghori sy'n daladwy cyn yr ymweliad. Y ffi ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2019 - Mawrth 2020 yw £362.88 gan gynnwys TAW. Ni ellir ad-dalu'r ffi hon o gwbl.

I ofyn am ymweliad cynghori, bydd angen i chi anfon ffurflen gais at approvals@food.gov.uk a nodi bod angen ymweliad cynghori arnoch. Bydd y Tîm Cymeradwyo yn darparu manylion ar sut i dalu.

Asesiad cymeradwyo

Fel rhan o'r broses gymeradwyo, byddwn ni'n asesu:

- offer a strwythur eich sefydliad
- eich system rheoli diogelwch bwyd, fel rhan o'r broses gymeradwyo.

Nid oes hawl gennych chi weithredu tan i chi gael eich cymeradwyo'n amodol.

Ar ôl eich cymeradwyo, bydd un o'n swyddogion milfeddygol yn cysylltu â chi o fewn tri mis i asesu cynhyrchiad a'ch [cydymffurfiaeth â holl ofynion hylendid Rheoliad 852/2004](#) a [Rheoliad 853/2004](#).

Ar ôl cymeradwyo, mae manylion y safle ynghyd â gwybodaeth am y mathau o fwyd a gynhrychir yn cael eu hychwanegu at [restr sefydliadau bwyd cymeradwy y Deyrnas Unedig](#) a [sefydliadau bwyd cymeradwy yr Undeb Ewropeaidd](#).

Yr hawl i apelio

Mae gennych chi hawl i [apelio yn erbyn ein penderfyniad](#) os caiff eich safle ei wrthod dan [Reoliad 12 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd 2009](#).

Gallwch chi gyflwyno apêl un mis o'r dyddiad y cawsoch wybod am y penderfyniad.

Polisi gweithredu

Mae'r polisi gweithredu yn egluro'r broses ymgeisio a phenderfynu ynghylch cymeradwyo eich busnes. Mae hefyd yn egluro o dan ba amgylchiadau y byddem yn tynnu eich cymeradwyaeth yn ôl.

Mae'r ddogfen hon ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd sydd eisoes â busnes bwyd cymeradwy, ac o bosibl:

- lladd-dai
- ffatrioedd torri
- sefydliadau trin helgig
- marchnadoedd cyfanwerthu

Rhestr o sefydliadau bwyd cymeradwy

- [Sefydliadau bwyd cymeradwy'r DU](#)
- [Sefydliadau bwyd cymeradwy'r UE](#)